

CANLLAW ADDYSGOL Y SBRIDION



Canllaw yw hwn sy'n cynnig ffyrdd y gall cysyniad **Y SBRIDION** gael ei addasu gan ddarparwyr addysg ar gyfer cyd-destunau penodol eu rhaglenni.

Mae'n gwahodd hyfforddwyr cyrsiau i mewn ac allan o amgylchedd yr ystafell ddosbarth i adnabod yr adrannau o'r canllaw sy'n ymwneud yn fwyaf agos at y cyrsiau y maent yn eu haddysgu.

Mae'r adnoddau yn darparu dysgwyr gyda phrofiadau a gynlluniwyd i:

- wella eu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau
- gynyddu eu hyfedredd iaith ar gyfer astudio, hamdden a chyfoethogi personol
- gyfrannu i addysg hirdymor, fel i wella eu datblygiad personol a deallusol

Mae'r cysyniad, fydd yn dal i ddatblygu, yn galluogi cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref, llyfrgelloedd ac ysgolion trwy gyfrwng adnoddau aml-lwyfan a rhyngweithio cymdeithasol.

Cysyniad Y Sbridion

Tyfodd y cysyniad o gyfres o **storiau dwyieithog/ Cymraeg / Saesneg** sydd mewn fformat doniol a thelynegol i blant hyd at 11 oed, ond gydag oedran diddordeb ehangach.

Mae **map** o'r lleoliad wedi bod yn rhan annatod o'r prosiect o'r dechrau ac mae'r deunydd wedi ei dreialu'n llwyddiannus mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru a thu hwnt.

Mae cyfres o aps digidol yn cynorthwyo addysg **aml-lwyfan, trawsgwricwlaidd**, gyda llyfrau print; digidol a sain ac adnoddau ystafell ddosbarth i dod.

Mae'r **aps** yn cynnwys fersiynau Saesneg; Cymraeg a Saesneg yr U.D. o'r testun a'r naratif. Crewyd y llyfrau a'r aps drwy gefnogaeth Sector Diwydiannau Creadigol, Llywodraeth Cymru.

Mae'r cysyniad yn ymrwymedig i hyrwyddo sgiliau **llythrennedd a rhifedd** ac i gynorthwyo digybllion i fod yn fwy **creadigol**, gyda gallu i **ddatblygu atebion arloesol i broblemau**. Bydd yn galluogi disgybllion i wella **galluoedd dadansoddol a beirniadol** yn ogystal â'r gallu i **gyfosod syniadau ac addasu i sefyllfaoedd newydd**.

Bydd yn galluogi disgybllion ag ystod o sgiliau a phriodoleddau i'w helpu i lwyddo mewn ystod eang o dasgau a chyfrifoldebau ac i gyfrannu at y gymdeithas y maent yn byw ynddi. Mae'r cymeriadau yn arddangos arddull amrywiol a bythol er mwyn ysgogi trafodaeth a hyrwyddo gwahaniaethau,

Athroniaeth ac Ymagwedd

Mae'r cysyniad yn cefnogi cwricwla drwy sicrhau bod adnoddau aml-lwyfan a thrawsgwricwlaidd ar gael.

Gall y deunydd gael ei addasu yn ôl yr angen mewn cyrsiau sy'n benodol, neu ei drwytho i mewn i gyrsiau eraill yn y cwricwlwm.

Mae'n darparu cyfleoedd i gysylltu i gydrannau o sgiliau generig, megis:

- Cydweithio
- Ymgysylltu / Dysgu trwy fwynhad, trochi a hiwmor
- Cyfathrebu, sgwrs, trafodaeth a dadl
- Gwybyddiaeth
- Meddwl yn feirniadol
- Gwerthuso teimladau, diddordebau a syniadau
- Chwilfrydedd
- Datrys problemau
- Dewisiadau hunan-barch, hyder, hunanarlwyo a gwneud dewisiadau
- Perthnasoedd
- Cyfrifoldeb a pharch
- Gwerthoedd personol a chymdeithasol
- Agwedd
- Credoau
- Dinasyddiaeth
- Arweinyddiaeth
- Sgiliau astudio a chreadigrwydd Cyflwyniad
- Rhifedd
- Technoleg gwybodaeth
- Cerddoriaeth a dawn gerddorol
- Celf a dylunio
- Dehongliad dramatig a chyflwyniad
- Ymarfer corff a lles corfforol

Mae'r **Gornel Gudd** yn dir rhyfeddol a aeth ar goll mewn amser.

Mae'r **map** a'r tir yn sefydlu ardal **byd bach** sy'n galluogi plant i **ryngweithio** ag ef yn annibynnol ac mewn grwpiau. Mae'n dir sy'n eu gwahodd i ddarganfod, ymweld ac archwilio.

Pedair seren: **SOL-FFA, GLOYW, CHWIM a LLON** sy'n llywodraethu **ethos** y cysyniad. Maent yn dylanwadu ar **gerddoroldeb y cymeriadau a'r iaith, gweithredu, bywiogrwydd a hwyl**.

Mae pob **plot a'i dirnod/au** yn cysylltu at adran briodol o'r cwricwlwm drwy ddulliau doniol a difyr. Maent yn ysgogi dychymyg plant i greu anturiaethau eu hunain.

Sgiliau Gwybyddol, Ffisegol a Chymdeithasol

Cefnogir **sgiliau gwybyddol**:

- Sylw
- Cof
- Rhesymeg a rhesymu
- Clywedol, gweledol a chyflymder prosesu

Cefnogir **sgiliau rhyngpersonol**:

- Perthnasoedd
- Sgwrs
- Trafodaeth
- Dadl
- Gwerthuso teimladau, diddordebau a syniadau.

Bydd dychmygu cymeriadau a phlotiau newydd, er enghraifft, yn ennyn **creadigrwydd, gwaith celf, meddwl yn rhesymegol a chwarae-weithredol**.

Gall **blaen-seddu (stôl goch) a chorneli chwarae rôl** gael eu seilio ar leoedd i'w gweld ar y map. Bydd masgiau, propiau a phypedau yn galluogi plant i ailadrodd ac i actio allan y storïau. Gallant dychmygu sefyllfaoedd gwahanol i newid terfyniadau.

Yn seiliedig ar ddealltwriaeth a gwybodaeth y plant am y cymeriadau, gallant osod y cymeriadau mewn gwahanol sefyllfaoedd ac egluro sut y maent yn teimlo y byddai'r cymeriadau yn ymateb.

Mae **lluniau** o'r cymeriadau, wedi'u amgylchynu gan ansoddeiriau sy'n eu disgrifio, yn hynod effeithiol. Mae'r darluniau yn addas ar gyfer y datblygiad o **ysgrifennu disgrifiadol a chwarae-rôl rhydd**. Mae hyn yn hynod bwrpasol wrth fod yn gysylltiedig â chardiau a chorneli chwarae rôl. Byddai prop syml ar gyfer pob cymeriad, megis het neu glogyn, yn ddigon er mwyn galluogi plant i drosglwyddo beth maent yn ei wybod am gymeriad i mewn i sefyllfa chwarae rôl.

Mae **rôlau oedolion** o ran ymateb a hwyluso cwestiynu o ansawdd da yn hanfodol.

Mae **cymorth llinyn gwybodaeth** yn cynnwys, er enghraifft, casglu gwybodaeth drwy weithgareddau, megis:

- Archebu
- Disgrifio
- Diffinio
- Dosbarthu
- Cymharu
- Egluro
- Cyfiawnhau
- Rhagfynegi
- Tybio
- Gwerthuso
- Dod i gasgliad.

Iaith

Mae'r cysyniad yn cydnabod y pwysigrwydd o feithrin cysylltiadau rhwng iaith a phynciau eraill drwy gydweithio ar draws y cwricwlwm. Mae'n galluogi disgyblion i wneud cysylltiadau rhwng syniadau a chysyniadau fel y bydd eu cymhelliant yn gwella a'u dysgu'n cryfhau. Mae'r iaith ysgogol yn anelu at helpu dysgwyr i gyflawni cydbwysedd rhwng ehangder a dyfnder o ddysgu iaith. Ei nod yw hwyluso mynegiant ac i roi pwyslais cyfartal i **ddysgu iaith a defnydd iaith**.

Gwranddo, Siarad a Darllen

Mae'r cysyniad yn cefnogi **addysgeg ganolog** i ddysgwyr, megis:

- Meddwl a chyfathrebu
- Cymhwyso, datblygu a chaffael gwybodaeth
- Ymateb ac ychwanegu mynegiant o brofiadau o fewn y cyd-destunau hyn
- Datblygu, cymhwyso a dealltwriaeth o sut mae iaith yn cael ei drefnu, ei ddefnyddio a'i ddysgu
- Cymryd rhan mewn cyflwyniadau
- Nodi, dehongli a thrafod themâu
- Cymryd rhan mewn cyflwyniadau dramatig a myfyrio ar y ffordd y mae'r awdur yn defnyddio iaith i greu effeithiau.
- Rhoi mynegiant i syniadau dychmygus drwy ddulliau llafar, ysgrifenedig a pherfformiadol
- Defnyddio a dealltwriaeth o ystumiau
- Creu cerddi a geiriau
- Creu penodau byr, dramatig

Cyn Ddarllen

Yn cynnwys:

- Archwiliad o strwythurau testun, ysgogi gwybodaeth flaenorol, adeiladu sgema
- Gwneud rhagfynegiadau
- Trafodaeth ar y prolog i'r storïau
- Trafodaeth am yr awdur a beth yw ei phwrpas yn ysgrifennu'r testun

Darllen

Yn cynnwys:

- Defnyddio'r map er mwyn galluogi olrhain pwrpas, symudiadau a chyrchfannau
- Trafodaeth am rôl y lleoliad yn nigwyddiadau y straeon
- Trafodaeth am 'Yr hyn y mae'r awdur yn ei olygu wrth ...'
- Crynhoi elfennau allweddol y digwyddiadau, cymeriadau a'r storïau

Mae'r **aps** yn cynnig dewisiad o destun **llinell wrth llinell**, **adroddiad** a **cherddoriaeth** yn ogystal â dewisiad o **leisio awtomatig** a **dangos rhif y tudalennau**.

Mae'r nodwedd **llinell wrth llinell** wedi ei ystyried yn ofalus. Mae'n caniatáu llais telynegol unigryw'r awdur i ennill y dydd yn glywedol a gweledol i gael yr effaith orau.

Gall dadansoddiad gramadegol pellach megis **strwythur brawddeg** gael ei hymgorffori i mewn i iaith ffurfiol ac ymarferion gramadeg.

Mae'r eirfa yn annog ymgysylltu, datblygu, arloesedd a mynegiant o fewn y ddealltwriaeth o **fathau o destun**.

Ysgrifennu, Geirfa a Gramadeg

Mae **strwythurau gramadegol sylfaenol** yn cael eu hategu gan enghreifftiau o:

- Gadens a chyseinedd
- Ansoddeiriau mynegiannol, adferfau a berfau
- Gyflythreniad ac onomatopeia
- Drosiadau a chyffelybiaethau
- Gyfuniadau o eiriau anarferol

- Rhythm a rhigwm
- Rhigymau rhannol neu agos
- Batrymau a geiriau ailadroddol, yn enwedig mewn cysylltiad â deuoliaeth y cymeriad Dau ap Dau, o ran lleferydd a dewisiadau.

Seiniau a Delweddau

Mae'r aps yn y gyfres yn llawn gweithgareddau, gyda synau a delweddau atmosfferig, cyffrous.

Cerddoriaeth

Mae'r Seren Sol-Ffa gerddorol yn llywodraethu'r iaith, y cymeriadau, natur a Chwm Awel, yn enwedig.

Mae'r cyfansoddiad, **Y DDAWNS SBRI**, yn annog plant i ganu, actio, dawnsio a chadw'n heini. Mae'n cynnig cyfleoedd iddynt i fod yn greadigol ac yn llawn mynegiant. Mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt ymlacio ar ôl cyfnodau hir o ganolbwytio.

Gweithgareddau Ymestyn

Mae'r cysyniad yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu **rhaglenni estyniad** yn seiliedig ar anghenion arbennig a diddordebau eich cynulleidfa darged a phwrpas yr addysg. Mae hyn yn berthnasol ar draws y cwricwlwm ac i ddisgyblion mwy galluog a thalentog, gan gynnwys, er enghraifft:

- Ysgrifennu sgrïptiau
- Dylunio cymeriad
- Dweud stori
- Datblygu stori

Sgiliau Rhifedd

Bydd y rhain yn cael eu cefnogi gan **GÊMAU POS RHIFOL**. Eu pwrpas fydd i ysgogi a herio meddyliau ifanc ac i ddatblygu a gwella **sgiliau rhifol**.

Adnoddau Ychwanegol

Gall yr adnoddau sy'n cael eu hawgrymu cael eu gweld fel dewislen lle gall hyfforddwyr ddewis y rhai sy'n cyd-fynd a'u cyrsiau ac arddull addysgu. Maent yn gyffredinol eu natur a gellir eu defnyddio yn unol â hynny.

Byddant yn cynnwys:

MAP o'r Gornel Gudd mewn gwahanol feintiau

DARLUNIAU o'r cymeriadau

DARLUNIAU o'r cymeriadau gyda'u plotiau cartref a'r

DARLUNIAU o'r tirnodau cysylltiedig

Darluniau penodol allan o'r llyfrau a'r aps

Setiau o **GÊMAU POS RHIFOL**

Nodir **ADNODDAU YCHWANEGOL** ar y wefan wrth iddynt gael eu datblygu

Am yr Awdur

Eiry Rees Thomas yw'r bedwaredd o bum plentyn a anwyd i deulu creadigol sy'n cynnwys bardd, arlunwyr a chaligraffydd/ cerflunydd.

Roedd pobl y gymuned lofaol lle treuliodd ei blynyddoedd ffurfiannol yn siarad Cymraeg yn bennaf, gyda Saesneg yn cael ei gyflwyno i gwricwlwm yr ysgol wrth i blant gyrraedd saith oed. Mae sain gerddorol yr iaith Gymraeg yn amlwg yn llais unigryw, telynegol yr awdur, yn driw i'w gwreiddiau Celtaidd.

Rhodddwyd mynegiant i'w chariad o ysgrifennu yn ddwyieithog ers yn ifanc wedi damwain ddifrifol ym 1998. Daeth hyn i ben a'i gyrfa fel ymarferydd iechyd y cyhoedd, athrawes peripatetig a chyfieithydd meddygol.

Mae ei phrofiad ym maes datblygiad plant, a'r fraint o fod wedi gweithio gyda phlant a theuluoedd ag anghenion arbennig yn cyfrannu at ei gwaith fel awdur a chrëwr cysyniadau.

Diolchiadau

Y Sector Diwydiannau Creadigol, Llywodraeth Cymru.

Darluniau: gan James Field

Dylunio a Rhaglennu'r aps: Cwmni Chaos Trend. Abertawe

Cyfieithu: Iwan Rhys, gyda Eiry Rees Thomas

Cyfansoddwr Y DDAWNS SBRI: Darren Adams; Cedwir pob hawl ©

Cymorth Rhaglen Mentora Ddigidol LIFE 1881, Cymru, gyda diolch arbennig i Simon Pridham; Rheolwr Gweithredol

Staff a disgyblion Ysgol Gynradd, Palmerston, Y Barri, gan roi cydnabyddiaeth arbennig am gyfraniad parhaol, amhrisiadwy uwch athro / cyd-gysylltydd llythrennedd, Melody Jones.

Staff a disgyblion Ysgol Gynradd Llanedeyrn, Caerdydd, gyda diolch arbennig i uwch athrawon, Lisa Jopson a Ian James.

Gyda diolch i ddirprwy bennaeth, Elizabeth Robinson, a'r cydlynnydd llythrennedd, Sian Scott Wilson, Ysgol JESS, Dubai am eu hasesu ac arweiniad medrus.

Adroddwyr: Noni Lewis, Geraint Pickard, Colin Thomas a Samuel North

Technegwyr Sain: Ian Mason, Stiwdios CBAC, Caerdydd, a Darren Adams.

Cynhyrchu Fideo: Hywel Jones

Dylunio Gwefan: [Chas Shaw, Cardiff Web Design](#)